OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 Rhif 617 (Cy.69)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid a Phorthiant (Samplu a Dadansoddi) (Diwygio) (Cymru) 2006

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *7 Mawrth 2006* |
| *Yn dod i rym - -* | *10 Mawrth 2006* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 66(1), 74A, 77(4), 78(6) ac 84 o Ddeddf Amaeth 1970(**1**) a chan ei fod wedi ei ddynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) o ran polisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd(**3**) a mesurau ym maes milfeddygaeth er diogelu iechyd y cyhoedd(**4**).

Bu ymgynghori yn unol â gofynion adran 84(1) o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970 neu fel sy'n briodol yn unol ag Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**5**).

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid a Phorthiant (Samplu a Dadansoddi) (Diwygio) (Cymru) 2006, maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 10 Mawrth 2006.

### Diwygiadau i Reoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) 2006

**2.**—(1) Yn Atodlen 5 (terfynau a ragnodwyd ar gyfer sylweddau annymunol) i Reoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) 2006(**6**), diwygir Pennod A yn unol â pharagraffau (2) i (4).

(2) Mewn perthynas â chofnodion ynghylch fflworin—

(**1**) 1970 p.40. Trosglwyddwyd swyddogaethau "yr Ysgrifennydd Gwladol", i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672. Mewnosodwyd adran 74A gan Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (1972 p.68), Atodlen 4, paragraff 6
(**2**) 1972 p.68.
(**3**) O.S. 2005/2766.
(**4**) O.S. 2003/1246.
(**5**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 1642/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L245, 29.9.2003, t.4).
(**6**) O.S. 2006/116 (Cy.14).

(a) yn lle'r ymadrodd "Mineral mixtures for cattle, sheep and goats" yng ngholofn 2 rhodder yr ymadrodd "Complementary feeding stuffs containing 4% phosphorous or less" a chyferbyn â'r cofnod hwnnw, yng ngholofn 3 yn lle'r ffigur "2000" rhodder "500";

(b) yn lle'r ymadrodd "Other complementary feeding stuffs" yng ngholofn 2 rhodder yr ymadrodd "Complementary feeding stuffs containing more than 4% phosphorous" a chyferbyn â'r cofnod hwnnw, yng ngholofn 3 yn lle'r ymadrodd "(fluorine content per percentage point phosphorous in the feeding stuff)" rhodder "per 1% phosphorous".

(3) Mewn perthynas â'r cofnodion ynghylch plwm, yn lle'r ymadrodd "grass meal, lucerne meal or clover meal" yng ngholofn 2 rhodder yr ymadrodd "green fodder (including products such as hay, silage, fresh grass, etc)".

(4) Mewn perthynas â'r cofnodion ynghylch mercwri, ar ôl y cofnod "— feed materials produced by the processing of fish or other marine animals" yng ngholofn 2 mewnosoder y cofnod "— calcium carbonate" a chyferbyn â'r cofnod hwnnw, yng ngholofn 3 mewnosoder y ffigur "0.3".

**Diwygio Rheoliadau Porthiant (Samplu a Dadansoddi) 1999**

**3.**—(1) Diwygir Rheoliadau Porthiant (Samplu a Dadansoddi) 1999(**7**) o ran Cymru yn unol â pharagraffau (2) i (6).

(2) Yn rheoliad 1 (enwi, cychwyn a dehongli), ar ddiwedd y diffiniad o Gyfarwyddeb 2002/70/EC ychwaneger yr ymadrodd "as amended by Commission Directive 2005/7/EC(**8**)".

(3) Yn rheoliad 6, yn lle paragraff (4) rhodder y canlynol—

"(4) Where a sample of a feeding stuff is to be analysed pursuant to—

(a) section 75(1) (sample analysed at the request of the purchaser) of the Act, or

(b) section 78(1) (further analysis by Government chemist) of the Act in so far as that sub-section does not relate to official controls,

and neither paragraph (1) nor (3) applies, the analysis shall be carried out in the like manner as that prescribed by Article 11(1)(a) or as appropriate (b) of Regulation (EC) No 882/2004 of the European Parliament and of the Council on official controls performed to ensure verification of compliance with feed and food law, animal health and animal welfare rules(**9**).".

(4) Yn Atodlen 2 Rhan I (darpariaethau cyffredinol) ychwaneger y paragraff canlynol—

"**Assessment of compliance in analysis for undesirable substances**

(a) Subject to paragraph (c), in the case of analysis to detect the presence of one or more of the undesirable substances listed in Schedule 5 to the Feeding Stuffs (Wales) Regulations 2006 ("the Schedule"), a feeding stuff which has been sampled and analysed in accordance with these Regulations does not comply with the relevant prescribed limit or limits set out in the Schedule if, after taking into account expanded measurement uncertainty and correction for recovery in accordance with paragraph (b), the analytical result indicates the presence of an undesirable substance in excess of the maximum content specified for that substance in column 3 of the Schedule.

(**7**) O.S. 1999/1663, fel y'i diwygiwyd eisoes gan O.S. 1999/1871, O.S. 2001/2253 (Cy.163), O.S. 2002/1797 (Cy.172), O.S. 2003/1677 (Cy.180), O.S. 2003/1850 (Cy.200), O.S. 2003/3119 (Cy.297), O.S. 2004 /1749 (Cy.186) ac O.S. 2006/116 (Cy.14).
(**8**) OJ Rhif L27, 29.1.2005, t.41.
(**9**) OJ Rhif L191, 28.5.2004, t.1.